CYNGOR CYMUNED PENMYNYDD

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FERCHER
7 Tachwedd 2018, CANOLFAN PENMYNYDD 7.30yh

YN BRESENNOL: Cyng D I Roberts, N Jones, A W Mummery, E Williams, D Gwyn, O Evans, G Owen (Clerc)	
YMDDIHEURIADAU: Cyng R Davies, R Williams (Cyngor Sir) M Jones (Cyngor Sir)	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng D I Roberts. Diolchodd y Cadeirydd i Cyng S Hughes am glirio a thacluso o gwmpas yr elusendai
2	**DATGAN DIDDORDEB** – Dim
3	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 03.10.18. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Datblygu'r maes chwarae** - Mae Cyng N Jones am trefnu cael pris am postyn newydd i'r giat. Bydd y Clerc yn cysylltu a Playquest am swings newydd ar ôl i'r praesept am mis Rhagfyr cael ei dalu i mewn i'r cyfrif banc.
4.2	**Heddlu Gogledd Cymru (ymateb**) - gweler llythyr ynglwm. Cytunwyd i ofyn i'r Adran Priffyrdd, Cyngor Ynys Môn am eu sylwadau
4.3	**Paentio'r meinciau** - Mae y Cadeirydd wedi cael olew teak. Cytunwyd i adael y gwaith nes bod y tywydd yn gwella.
4.4	**Lôn Bryn Ffynnon** - Nid yw'r Clerc wedi derbyn ymateb gan Dafydd Rowlands, Adran Tai. Cynigodd Cyng A Mummery gysylltu â rheolwr Dafydd Rowlands.
4.5	**Gor-yrru a materion Penmynydd** - Yn dilyn cyfarfod 07.11.18 rhwng y Cadeirydd Cyng D I Roberts, Cyng E Williams ac Alun Roberts, Adran Priffyrdd, cytunodd y Cyngor Sir i dorri'r gwrychoedd ar y troad i Lanfairpwll, edrych ar y dip yn y lôn ar y troad i'r eglwys, edrych ar y broblem yn y groeslon ar y ffordd i mewn i Penmynydd o Langefni (modurwyr yn methu gweld wrth troi), gosod arwyddion camera a bydd Mr Roberts yn gofyn i'r Cyngor Sir os oedd caniatad i agor porth arall yn Pen Dalar.
5	**GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MôN**
	Dim
6	**GOHEBIAETH YCHWANEGOL**
6.1	Heddlu Gogledd Cymru - gweler 4.2
6.2	Calonnau Cymru Calonnau Cymru - ebost yn cynnig defribilator i'r ardal. Bydd y Clerc yn gofyn am mwy o wybodaeth
7	**MATERION ARIANNOL**
	Cytunwyd i dalu:
7.1	Costau y Clerc £160.49
7.2	Costau y Cadeirydd £28.20
8	**MATERION ERAILL**
8.1	Peilonau - Ymgynghoriad - Bydd y Cadeirydd yn gwrthwynebu ar rhan y Cyngor
	Llofnod Cadeirydd 02.01.19

9	**EITEMAU AR GYFER YR AGENDA NESAF**
	Dim
	Llofnod **Cadeirydd** **02.01.19**